# COPA1

## ADNODD COPA1 - BLWYDDYN 7 & 8



CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

Eco-Sgolion
Eco-Schools

# Cefndir

Mae gennych gyfle unigryw i lunio dyfodol Yr Wyddfa, a dyma'ch cyfle a'ch gwahoddiad i fod yn rhan o hynny!

Pan fydd plastigion yn dadelfennu yn yr amgylchedd, maent yn rhannu'n ddarnau llai a llai - yn y pen draw, mae'r rhain yn troi'n ficroblastigau. Prin fod microblastigau yn weladwy i'r llygad dynol ond maent yn un o'r problemau mawr sy'n ein hwynebu fel cymdeithas. Dysgwch fwy am beryglon microblastigau yma[1].

Mae copa'r Wyddfa yn cynnwys 5% o ficroblastigau ac mae sefydliadau gwirfoddol wedi casglu dros hanner pwysau car o sbwriel oddi ar y llethrau mewn dim ond chwe mis! Dyna pam y dechreuodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri brosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig, fel ein bod ni'n gallu atal y llygredd plastig hwn. Gallwch ddysgu mwy am brosiect Yr Wyddfa Ddi-Blastig ar ein gwefan[2].

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyflwyno deddfwriaeth i ddiogelu'r amgylchedd gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)[3] a'r Ddeddf Cynhyrchion Plastig Untro (2023)[4] i leihau sbwriel niweidiol a microblastigau. Beth fyddech chi'n ei wneud i amddiffyn eich amgylchedd?

Ym mis Medi 2024, fe allech chi gael eich galw - ynghyd â disgyblion eraill o bob rhan o Ogledd Cymru - i gyflwyno eich Syniad Mawr i leihau llygredd untro yn COPA1: y gynhadledd amgylcheddol gyntaf i gael ei chynnal ar Yr Wyddfa.

Hoffem i chi gwblhau'r tasgau canlynol wrth baratoi ar gyfer creu eich cyflwyniad fideo 3 munud gyda'ch Syniad Mawr. Nid yw Tasg 1-5 yn orfodol ac nid oes angen eu cyflwyno, ond byddant yn eich helpu i ddatblygu eich Syniad Mawr ac yn rhoi'r cyfle gorau i chi fynychu cynhadledd COPA1! Bydd cwblhau'r tasgau e.e. y dadansoddiad CGCB (SWOT) hefyd yn eich helpu i ddatblygu sgiliau y byddwch yn eu defnyddio eto fel rhan o Fagloriaeth Cymru.

Mae Tasg 6 yn orfodol a rhaid ei chyflwyno mewn grwpiau o 2-4 disgybl.

Gallwch hefyd ymgorffori eich gwaith yn eich cynllun gweithredu Eco-Sgolion a'i ddefnyddio fel tystiolaeth tuag at ennill achrediad Baner Werdd a gydnabyddir yn rhyngwladol gan Eco-Sgolion. Cysylltwch â'ch swyddog Eco-Sgolion lleol o Cadwch Gymru'n Daclus am fwy o gefnogaeth.

## Torri ias (Tasg ddewisol)

Pe baech yn archarwr, (superhero), beth fyddai eich enw chi?

Pwrpas y dasg hon yw ymarfer crynhoi llawer o wybodaeth i un gair neu ymadrodd cofiadwy.

---

## Dolenni

1 https://keepwalestidy.cymru/caru-cymru/cy/polisi-ac-ymchwil/lleihau-llygredd-plastig/

2 https://eryri.llyw.cymru/ymweld/yr-wyddfa/yr-wyddfa-ddi-blastig

3 https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru

4 https://www.llyw.cymru/deddf-diogelur-amgylchedd-cynhyrchion-plastig-untro-cymru

## Tasg 1

Dychmygwch ein planed yn 2050, pan amcangyfrifir y bydd poblogaeth y byd yn cyrraedd 9.9 biliwn o bobl. Gall newid hinsawdd a ffactorau eraill hefyd arwain at gynnydd mewn twristiaid yng Ngogledd Cymru ac yn benodol, Eryri.

Wrth ystyried yr uchod, yn eich grŵp, meddyliwch am 10 gair i ddisgrifio Eryri erbyn 2050 os **na wnawn ni** gymryd camau i leihau effaith llygredd.

Hoffwn i chi hefyd feddwl am 10 gair i ddisgrifio Eryri erbyn 2050 **os wnawn ni** gymryd camau cadarnhaol tuag at leihau effaith llygredd.

| Os **na wnawn ni** gymryd camau i leihau effaith llygredd | **Os wnawn ni** gymryd camau cadarnhaol tuag at leihau effaith llygredd |
|---|---|
| | |

## Tasg 2

## Diagram achos ac effaith

Yn y dasg hon, byddwch angen ystyried yr holl bethau a all 'achosi' llygredd/ sbwriel ar Yr Wyddfa. Yna ar gyfer pob 'achos', beth yw'r 'effaith'? Gall hyn fod yn effaith ar yr amgylchedd, bywyd gwyllt, ymddygiadau pobl ayyb.

| Achos/ Problem | Effaith |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

## Tasg 3

## Meddwl yn greadigol – Meddwl mewn ffordd wahanol

O'r problemau rydych wedi nodi uchod, hoffwn i chi greu map o'ch meddyliau a'ch syniadau ar gyfer cyflwyno ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus greadigol i fynd i'r afael â'r broblem o sbwriel ar Yr Wyddfa.

Gallai'r ymgyrch hon fod yn un ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, fideo cerddoriaeth, llyfr i blant, ffilm fer neu unrhyw gyfrwng arall y credwch fyddai'n denu cynulleidfa fawr ac yn helpu i ledaenu neges prosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig.

Syniadau cychwynnol yw'r rhain felly nodwch bob dim sy'n dod i'ch meddwl cyn mynd ati i'w harchwilio mewn mwy o fanylder yn nhasg 4.

Gallwch wneud hyn ar wahân i ddechrau ac wedyn dod at eich gilydd fel grŵp i drafod eich syniadau unigol ymhellach.

'Does dim ffasiwn beth â syniad gwael na syniad sy'n rhy wirion chwaith! Ewch amdani!

| |
|---|
| **Syniad 1** |
| **Syniad 2** |
| **Syniad 3** |

## Tasg 4

Penderfynwch pa un o'r syniadau uchod rydych am ei ddatblygu ymhellach.

Bydd angen i chi wneud gwaith ymchwil i'r farchnad.

Pa ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus creadigol sy'n bodoli? Ydyn nhw wedi gweithio? Pa effaith allant eu cael ar y gynulleidfa?

Mae'n bwysig bod gennych weledigaeth glir o'ch syniad a'i effaith.

| **Nodiadau o'r gwaith ymchwil** |
| --- |
| |

| **Ein syniad ni** |
| --- |
| |

## Tasg 5

### Cwblhewch ddadansoddiad CGCB (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd, Bygythiadau) i werthuso'ch syniad.

Beth yw'r cryfderau? Beth am y gwendidau?

Oes unrhyw gyfleoedd neu fygythiadau allanol a all effeithio ar eich syniad?

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| | |

| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
|---|---|
| | |

Nodwch 3 pheth wnaethoch chi ei ddarganfod wrth gwblhau eich dadansoddiad CGCB? Be' fyddwch chi angen ei newid / ddatblygu am eich syniad o ganlyniad i'r darganfyddiadau hyn?

## Tasg 6 – Cyflwyno ein syniad terfynol

### Rhaid datblygu a chyflwyno pob syniad mewn grwpiau o 2-4 disgybl.

Rwan, bydd angen i chi benderfynu sut fyddwch chi'n cyflwyno eich syniad ar ffurf fideo. Mae hyn yn hollol agored i chi o ran fformat, lleoliad, cynnwys ayyb ond mae'n bwysig sicrhau mai 3 munud ar y mwyaf ydi hyd y fideo os gwelwch yn dda.

Danfonwch eich fideo drwy'r ddolen isod erbyn 30 Mai 2024:-

**Cyflwyniad COPA1.**[1]

**PWYSIG:** Fel rhan o'ch fideo, rhowch y wybodaeth ganlynol i ni pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch hun:

- Enwau a chyfenwau aelodau eich grŵp
- Eich blwyddyn ysgol
- Eich ysgol

Pob lwc!

---

*Gallwch ddod o hyd i weithgareddau ac adnoddau ychwanegol i wella eich dealltwriaeth o ficroblastigau, llygredd ac Eryri yn y dolenni canlynol:*

**Adnoddau**
**#ArFrigYDon**

https://keepwalestidy.cymru/cy/addysg/be-the-wave/

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
https://eryri.llyw.cymru/

[1] https://shorturl.at/dhnrT